NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Fedratinib ar gyfer trin sblenomegali sy'n gysylltiedig â chlefydau neu symptomau mewn myeloffibrosis

20 achwedd 2024

Mae fedratinib (Inrebic) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer sblenomegali cysylltiedig â chlefyd neu symptomau myeloffibrosis sylfaenol, myeloffibrosis ôl-polycythaemia vera neu myeloffibrosis theomcythaemia ôl-hanfodol mewn oedolion. Mae ond ar gael os ydy'r person:

- wedi cael ruxolitinib, ac
- yn methu cael momelotinib.

Os nad ydych yn gymwys i gael fedratinib ond eich bod eisoes yn ei gael, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch gweithiwr iechyd proffesiynol yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

NICE National Institute for Health and Care Excellence

**Gwybodaeth a chymorth**

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- MPN Voice, info@mpnvoice.org.uk
- Leukaemia Care, 08088 010 444
- Blood Cancer UK, 0808 2080 888
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9482-3